**YN DOD YN FUAN YN DOD YN FUAN YN DOD YN FUAN**

*Namthip, sy'n enwog eisoes am ei bwyd Thai i fynd ar nos Wener, yn bwrw iddi gydag antur newydd sbon…*

# Y GWYDYR

## AR EI NEWYDD WEDD

### BAR – BWYTY – CAFFI – GWELY A BRECWAST



Mae preswylwyr o Ddolwyddelan, Namthip ac Urien yn mynd ati i adfer ac ailwampio y tu mewn a'r tu allan i'r Gwydyr, yng nghanol ein pentref ni.

***Na phoener, bydd Namthip yn parhau i gynnig ei bwyd Thai arbennig pob dydd Gwener, i'w fwyta yn y bwyty neu i fynd.***

Byddan nhw'n agor caffi sydd wir ei angen ar y pentref i gwrdd am baned a sgwrs, a thamaid o gacen wrth gwrs, yn ystod y dydd. At hyn byddan nhw'n cynnig prydau yn y bar a bwyty lle gallwch eistedd a mwynhau pryd o fwyd yno. Bydd y tri lle yn cynnig bwyd cartref, wedi'i gaffael yn lleol lle'n bosibl.

Bydd y Gwydyr hefyd yn gyrchfan pwysig i'r ymwelwyr hynny fyddai'n teithio drwy Ddyffryn Lledr, oherwydd does unman iddyn nhw fwynhau tamaid bach yn ystod y dydd rhwng Betws-y-coed a Ffestiniog ar hyn o bryd.

Byddan nhw'n gosod cegin newydd sbon ac yn ailwampio'r pedair ystafell wely a brecwast i fyny'r grisiau'n llwyr i gynnig ystafelloedd ffres a chwaethus o arddull gwledig. Bydd yn gyrchfan cyfforddus amlbwrpas, a gallwn ei argymell yn ddi-oed fel llety i'n teulu a'n ffrindiau pan maen nhw'n ymweld â'r ardal.




Maen nhw wrthi'n creu gardd gwrw deniadol hefyd, er mwyn ichi fwynhau eich bwyd a diod yn heulwen haf

*(Parhad ar dudalen 1)*